Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Cyswllt Ffermio

Mehefin 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddEconomi@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddEconomi**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Cyswllt Ffermio

Mehefin 2024

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Paul Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Vikki Howells AS**
Llafur Cymru



**Jenny Rathbone AS**
Llafur Cymru

## Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Buffy Williams AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .......... **5**

**Casgliadau ac Argymhellion** .......... **6**

**1. Cyflwyniad** .......... **8**

Cefndir .......... 8

Gwaith Craffu'r Pwyllgor .......... 10

**2. Cyfathrebu cenhadaeth a rôl y dyfodol** .......... **11**

Cefnogi'r pontio i'r CFfC .......... 13

Cyllid .......... 14

Newydd-ddyfodiaid .......... 15

Ffermydd Arddangos .......... 17

**3. Gofynion sgiliau ac arbenigedd** .......... **19**

Ymchwil .......... 20

Integreiddio gyda choedwigaeth a rheoli coetiroedd .......... 21

**4. Cymhwystra a Mynediad** .......... **24**

**5. Strwythur y Contract a'r Rhaglen** .......... **27**

Gwerthusiad ffurfiol o Cyswllt Ffermio .......... 28

**6. Cefnogi iechyd meddwl** .......... **29**

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar** .......... **31**

**Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig** .......... **32**

Gwybodaeth Ychwanegol .......... 32

# Rhagair y Cadeirydd

## Yn dilyn newidiadau polisi sylweddol ar ôl Brexit, mae rhanddeiliaid yn teimlo y dylid craffu mwy ar Cyswllt Ffermio, ac y dylai fod mwy o ddadansoddiad a mewnbwn gan randdeiliaid.

Mae parch mawr i'r rhaglen Cyswllt Ffermio ar y cyfan, ond mae bylchau wedi'u nodi yn y cymorth i bontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC), gan gynnwys bylchau mewn sgiliau. Daeth ein hymchwiliad undydd i'r casgliad hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi 'colli cyfle' drwy beidio â helpu Cyswllt Ffermio i gyfathrebu'r cyfeiriad a'r sail resymegol dros ei bolisi amaethyddol yn llawer gwell.

Beth bynnag ddaw i ddisodli'r rhaglen Cyswllt Ffermio bresennol, rhaid iddo fod yn addas i'r dyfodol, gan ganolbwyntio ar annog a chefnogi newydd-ddyfodiaid, ehangu mynediad i gynnwys myfyrwyr amaethyddol a chynnig amgylchedd croesawgar i bawb sydd â diddordeb mewn gweithio ym maes rheoli tir yn gynaliadwy (RhTG). Rhaid rhoi sylw i gyflwyno'r arbenigedd cywir i helpu i gyflawni amcanion RhTG Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Mae angen gwneud y sector coedwigaeth yn bartner llawn yn hyn, a dylid harneisio'r cyfoeth o arbenigedd yng Nghymru o ran ecoleg, bioamrywiaeth ac adfer natur i helpu busnesau fferm i ffynnu. Mae ffermydd arddangos a mentora ymhlith y cynigion i helpu i gyfathrebu'r hyn sydd ei angen gan ffermwyr a pham, gan gynnwys y manteision.

Codwyd cwestiynau ynghylch sut mae'r gwaith hwn yn cael ei ariannu yng ngoleuni'r pwysau cyllidebol ar arian cyhoeddus sydd ar gael ar gyfer cymorth amaethyddol yng Nghymru. Rhaid i'r contract newydd gynnig gwerth am arian, osgoi dyblygu ac ennyn hyder i'r dyfodol. Mae ffermwyr yn wynebu heriau anodd ac mae ansicrwydd ac anesmwythyd yn y diwydiant – rhaid i Cyswllt Ffermio hefyd barhau â'i rôl bwysig o ran cefnogi a diogelu iechyd meddwl ffermwyr. Bydd craffu ar y contract newydd yn bwysig ac mae'r Pwyllgor yn barod i gyfrannu yn hyn o beth.



**Paul Davies AS**
Cadeirydd

# Casgliadau ac Argymhellion

**Casgliad 1.** Mae'r awgrym bod Cyswllt Ffermio wedi ymddieithrio o nodau polisi Llywodraeth Cymru a bod cyfathrebu rhwng y ddau sefydliad yn wan yn peri pryder, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio pwysig hwn. Rhaid sicrhau eglurder llwyr ynghylch yr hyn y bwriedir i'r contract Cyswllt Ffermio newydd ei gyflawni a pham, ac mae'n amlwg bod angen hyrwyddo'r rhaglen yn well. ......................Tudalen 17

**Casgliad 2.** Er bod cynigion y CFfC yn dal i gael eu datblygu, mae tystiolaeth gan randdeiliaid yn dangos rhai bylchau sylweddol yn y rhaglen bresennol i helpu i bontio i'r CFfC, a chefnogi ffermwyr i gyflawni amcanion RhTG. Yn sicr, mae lle am lawer mwy o gyfraniad gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol ac arbenigedd arbenigol, gan gynnwys ecolegwyr, arbenigwyr bioamrywiaeth a garddwriaeth a choedwigwyr, a rhaid rhoi blaenoriaeth i sicrhau'r arbenigedd hwn yn ystod y pontio i'r CFfC ac ar ôl hynny. Rhaid archwilio'n llawn rôl y ffermwyr eu hunain fel mentoriaid ac arbenigwyr. Mae angen ystyried sut mae gwybodaeth arbenigol yn cael ei rhannu gyda'r rhai sy'n rheoli'r tir, gan gynnwys y cwmpas ar gyfer datblygu hyb gwybodaeth o adnoddau a all gyfeirio'n glir at y dystiolaeth a'r cyngor gwyddonol diweddaraf. ........................................ Tudalen 23

**Casgliad 3.** Mae tystiolaeth o gynhwysiant cyfyngedig y sector coedwigaeth yn peri pryder, yn enwedig yng ngoleuni'r amcanion RhTG yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 a'r gofynion ar ffermwyr actif a nodir yng nghynigion y CFfC. Rhaid i Cyswllt Ffermio gynnwys llawer mwy o arbenigedd ym maes coedwigaeth a rheoli coetiroedd. Rhaid iddo gynnwys y sector hwnnw fel trydydd parti wrth ddatblygu gwasanaethau hyfforddi a chymorth a chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i'r rhai sy'n rheoli tir amaethyddol Cymru. ........................................ Tudalen 23

**Casgliad 4.** Mae cymorth i fyfyrwyr a gweithwyr amaethyddol sy'n newydd i'r diwydiant yn hanfodol, a rhaid sicrhau bod rhoi blaenoriaeth i hyn yn rhan o'r contract newydd. Mae angen adolygu mynediad a chymhwystra ar gyfer Cyswllt Ffermio ar unwaith gyda'r bwriad o sicrhau gwell mynediad i newydd-ddyfodiaid a grwpiau eraill sydd wedi'u hallgáu ar hyn o bryd, gan gynnwys myfyrwyr. Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried anghenion tyddynwyr a garddwriaethwyr wrth gomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol. Rhaid sicrhau bod darpariaeth ddigonol o wasanaethau cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg, a rhaid rhoi blaenoriaeth i broblemau parhaol fel allgáu digidol. Rhaid i ymgysylltu â cholegau a sefydliadau amaethyddol eraill gael sylw manwl yn y rhaglen Cyswllt Ffermio nesaf, yn ogystal â meithrin cysylltiadau ag ysgolion i hyrwyddo'r diwydiant a'r cyfleoedd sydd ar gael. ........................................ Tudalen 26

**Casgliad 5.** Ers ymadael â’r UE, nid yw rhai o’r mecanweithiau blaenorol ar gyfer craffu ar daliadau cymorth amaethyddol a gwasanaethau ar waith mwyach. Mae hynny’n golygu ei bod hi'n bwysicach nag erioed bod â mecanweithiau cadarn ar gyfer craffu ar yr arian cyhoeddus sy'n cael ei wario ar gefnogi'r diwydiant amaethyddol, gan gynnwys gwerth am arian ac effeithiolrwydd gwasanaethau Cyswllt Ffermio. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir sut y mae'n bwriadu gwarantu'r atebolrwydd hwn, ac yna bydd angen i'r Pwyllgor ystyried ei rôl graffu ei hun. Dylai Llywodraeth Cymru ymateb hefyd i fater sut mae'r gymuned ffermio, cyrff anllywodraethol amgylcheddol a phawb sy'n actif yn yr economi wledig yn cael fforwm i fynegi eu barn am wasanaethau cynghori ffermwyr ac i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau yn y dyfodol. ........ Tudalen 28

**Casgliad 6.** Mae gan Cyswllt Ffermio rôl bwysig o ran cyfeirio at gymorth iechyd meddwl. Yn enwedig yng ngoleuni lefelau uchel o orbryder ac anniddigrwydd yn y sector am yr heriau y mae ffermwyr yn eu hwynebu, ac ansicrwydd y cyfnod pontio y mae'r diwydiant ynddo, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y cynhelir gwerthusiad cadarn ynghylch a yw gwasanaethau Cyswllt Ffermio yn canolbwyntio’n ddigonol ar gefnogi iechyd meddwl a lleihau pwysau yn hytrach nag ychwanegu atynt mewn unrhyw ffordd. Cyn belled ag y bo modd o fewn ei gylch gwaith, rhaid i Cyswllt Ffermio nodi a mynd i'r afael â'r materion sy'n achosi'r gorbryder a'r straen mwyaf i ffermwyr. Dylid ystyried sut y gall 'ychwanegu gwerth' at y gwasanaethau cymorth arbenigol presennol sydd ar gael i ffermwyr, a darparu atebion ymarferol i fynd i'r afael â phrif sbardunau straen. Gan gydnabod faint sydd wedi newid i'r sector ers y gwerthusiad ffurfiol diwethaf yn 2021, dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried a allai rhywfaint o werthusiad a mewnbwn annibynnol fod yn ddefnyddiol wrth gyflawni'r nod pwysig hwn. ........ Tudalen 30

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn hyrwyddo’n well rôl Cyswllt Ffermio o safbwynt cefnogi ffermwyr i ddeall sut y gallant gyflawni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy y CFfC. Dylai hyn gynnwys ystyried awgrym rhanddeiliaid i ddefnyddio ffermydd arddangos neu ‘beilot’ fel rhan o waith Cyswllt Ffermio. ........ Tudalen 18

# 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad undydd i Cyswllt Ffermio ar 22 Chwefror 2024, gan ganolbwyntio ar barodrwydd a chapasiti i ddarparu'r gwasanaethau yn y dyfodol sy'n ofynnol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (CFfC) o 2026 ymlaen, ac i gefnogi ffermwyr yn ystod y cyfnod pontio.

**1.** Cyswllt Ffermio yw rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu pecyn cydgysylltiedig o wasanaethau trosglwyddo gwybodaeth, arloesi a chynghori ar gyfer busnesau ffermio a choedwigaeth. Fe'i sefydlwyd yn wreiddiol o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-20 ac mae wedi bod yn darparu cymorth i "wella gwytnwch a hybu newid trawsffurfiol mewn amaeth, coedwigaeth a chymunedau gwledig".

**2.** Ar ôl ymadael â'r UE, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £22.9m ar gyfer Cyswllt Ffermio ar gyfer 2023-2025, i gefnogi pontio i'r CFfC arfaethedig, y bwriadwyd ei gyflwyno yn 2025 ond sydd bellach wedi'i ohirio tan 2026. Roedd rhaglen olynol dwy flynedd o hyd yn yr arfaeth i gefnogi darpariaeth y CFfC. Mae Cyswllt Ffermio yn cael ei ddarparu gan gontractwyr, a disgwylir i'r broses dendro ar gyfer y contract ddechrau ym mis Mehefin 2024 ac i'r contract(au) gael eu dyfarnu erbyn mis Medi 2024. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn dysgu o'r model presennol ac yn ei addasu "er mwyn sicrhau y gall ffermwyr fod yn hyderus y byddant yn derbyn y cyngor, yr arweiniad a'r cymorth sydd eu hangen arnynt."[1]

## Cefndir

**3.** Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r contract ac yn cefnogi'r contractwyr i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd â'i pholisïau a'i thargedau. Mae'r strwythur llywodraethu yn cynnwys Bwrdd Rhaglen sy'n darparu cyfeiriad strategol sydd â chadeirydd annibynnol, ac aelodau sy'n cynrychioli gwahanol randdeiliaid.

**4.** Mae ffermwyr a choedwigwyr yn cofrestru'n wirfoddol gyda Cyswllt Ffermio. Ers i'r rhaglen ddechrau yn 2015, mae cyfanswm o 27,799 o unigolion wedi

[1] Tystiolaeth ysgrifenedig

cofrestru, yn cynrychioli 13,085 o fusnesau. Unwaith y byddant wedi cofrestru, gall y cyfranogwyr gael mynediad at wahanol wasanaethau, gyda rhai ohonynt wedi'u hariannu'n rhannol neu'n llawn. Mae'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth bresennol ar gyfer 2023-2025[2] yn cynnwys saith rhaglen ar wahân, sydd eisoes yn cyd-fynd â'r Amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy (RhTG) a nodir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023. Mae canlyniadau'r rhaglen, fel y'u disgrifiwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys cymorth busnes wedi'i deilwra, gwell effeithlonrwydd, meincnodi perfformiad, nodi meysydd i'w gwella, datblygiad proffesiynol, deall y datblygiadau diweddaraf mewn technoleg a rhannu arferion gorau.

**5.** Mae'r cynigion amlinellol ar gyfer y CFfC a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022 yn nodi nifer o swyddogaethau ar gyfer Cyswllt Ffermio o dan y cynllun newydd, gan gynnwys cefnogi:

- cofrestru fel ffermwr;
- yr Adolygiad o Gynaliadwyedd;
- ffermwyr i gymryd y gweithredoedd cyffredinol ac opsiynol;
- ceisiadau (lle mae ffermwyr yn cadarnhau sut y caiff gweithredoedd eu cwblhau).

**6.** Fodd bynnag, nid oedd yr ymgynghoriad diweddaraf ar y CFfC a ddaeth i ben ar 7 Mawrth 2024 yn manylu ar sut yn union y byddai Cyswllt Ffermio yn cefnogi ffermwyr mewn perthynas â'r 17 Gweithred Gyffredinol a nodwyd - er enghraifft, gofynion ar gyfer 'cylch hyfforddi blynyddol' o dan Weithred Gyffredinol 2 – Datblygiad Personol Parhaus, neu i gwblhau'r asesiad carbon sy'n ofynnol yn y flwyddyn gyntaf ar ôl ymuno â'r cynllun. Dywedodd NFU Cymru fod y diffyg eglurder a chynigion manwl ar gyfer Cyswllt Ffermio ar ôl 2025 yn peri syndod iddynt.[3]

**7.** Ar ôl yr ymchwiliad undydd, ar 14 Mai 2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig[4] y byddai cyflwyniad y CFfC yn cael ei ohirio tan 2026. Mae'r cyfnod paratoi ar gyfer 2024-2025 yn gyfle i Cyswllt Ffermio weithio gyda ffermwyr i helpu i bontio a datblygu ei gynnig ar gyfer 2026, er mwyn helpu i weithredu'r cynllun pan gaiff ei gyflwyno.

[2] Cyswllt Ffermio_2023_0.pdf (llyw.cymru)
[3] Tystiolaeth ysgrifenedig
[4] Datganiad Ysgrifenedig: Dyfodol Ffermio yng Nghymru (14 Mai 2024) | LLYW.CYMRU

**8.** Roedd tystiolaeth ysgrifenedig gan ddeiliaid presennol y contract, Menter a Busnes a Lantra, yn tynnu sylw at sut mae'r rhaglen bresennol yn berthnasol i gynigion y CFfC. Disgrifiodd Lantra newid diweddar mewn ffocws i helpu'r diwydiant i bontio i'r CFfC e.e. cynigion newydd ar adfer mawndiroedd, rheoli pridd a dŵr, cynnal a chadw pyllau a gwlyptiroedd, yn ogystal â gweithdai ar les anifeiliaid.

## Gwaith Craffu'r Pwyllgor

**9.** Pan gyfarfu Aelodau â rhanddeiliaid yn y Sioe Fawr ym mis Gorffennaf 2022 i drafod y CFfC arfaethedig, dywedodd y rhanddeiliaid fod rhaid i Cyswllt Ffermio fod yn addas i'r diben i gyflawni'r cyfrifoldebau amrywiol, o ystyried y dull newydd ac uchelgeisiol o gefnogi ffermydd. Roedd adborth o ymarfer cyd-ddylunio'r CFfC hefyd yn cwestiynu a fyddai digon o gynghorwyr cynllun a oedd â'r sgiliau i gefnogi ffermwyr.

**10.** Yn 2023, cytunodd y Pwyllgor i edrych yn fanylach ar Cyswllt Ffermio a sut y bydd yn cefnogi gweithrediad y CFfC. Roedd y broses dendro ar gyfer y contract newydd, a'r ymgynghoriad parhaus ar y CFfC, yn ffactorau yn amseriad y gwaith hwn. Penderfynodd y Pwyllgor i ofyn am dystiolaeth i ddechrau gan ystod o randdeiliaid ffermio ac amgylcheddol, ac yna gofyn am dystiolaeth lafar gan y rhai sy'n darparu'r contract unwaith y bydd y broses dendro wedi'i chwblhau.

**11.** Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi na fyddai'r deiliaid contract presennol am niweidio unrhyw gais y gallent fod yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol. Fodd bynnag, er mwyn llywio ei waith, cafodd Lantra a Menter a Busnes gyfle i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig o'u barn a'u profiad ynglŷn â'r gwaith presennol, yn enwedig gan gynnwys eu hymwneud â ffermwyr, unrhyw beth a oedd yn rhwystro eu gwaith ac unrhyw beth yr hoffent ei weld yn newid yn y cylch tendro nesaf.

**12.** Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a roddodd dystiolaeth. Cafwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan Lantra a Menter a Busnes, yn ogystal â chan undebau'r ffermwyr UAC ac NFU Cymru, y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur (NFFN), Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL), Confor a Llywodraeth Cymru. Ar 22 Chwefror, cafwyd tystiolaeth lafar gan Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru (CFfI Cymru), Undeb Amaethwyr Cymru (UAC), NFU Cymru, NFFN, Confor a WEL.

# 2. Cyfathrebu cenhadaeth a rôl y dyfodol

**13.** Daeth gwerthusiad annibynnol yn 2021[5] o ddarpariaeth ac effaith Cyswllt Ffermio i'r casgliad ei fod wedi perfformio'n dda a'i fod yn destun ymddiriedaeth a pharch ymhlith y sector, er i NFU Cymru dynnu sylw at y ffaith bod y gwerthusiad hwn wedi'i gynnal tra bod ffermwyr yn cael eu cefnogi gan Gynllun y Taliad Sylfaenol.[6] Mewn tystiolaeth lafar, cytunodd undebau'r ffermwyr a CFfI Cymru ei fod yn adnabyddus ac yn cael ei barchu a'i fod wedi cyflwyno manteision gwirioneddol. Dywedodd NFFN fod ffermwyr mewn rhannau eraill o'r DU yn eithaf cenfigennus o'r hyn a oedd ar gael yng Nghymru, ond bod rhwystrau i fwy o ffermwyr ymgysylltu ag ef, gan gynnwys ffermwyr hŷn sy'n fwy cyndyn i newid eu ffyrdd.[7]

**14.** Nododd UAC ac NFFN y bydd lefel yr ymgysylltiad yn amrywio yn dibynnu ar ffactorau gan gynnwys oedran y ffermwr a'r math o fusnes y mae'n ei weithredu, ond roedd rhanddeiliaid a roddodd dystiolaeth lafar yn gytûn y byddai Cyswllt Ffermio yn bendant ar ei ennill pe bai'n cael ei hyrwyddo ymhellach. Soniodd Elaine Harrison o Confor am y diffyg gwybodaeth dybryd,[8] a dywedodd fod angen mwy o integreiddio rhwng ffermio, coedwigwyr a dulliau rheoli tir ehangach. Dywedodd Hywel Morgan o'r NFFN:

> *"I think we're at a critical moment now in agriculture and with the SFS proposals. I think more presence in the marketplace, maybe … to try and get people involved … The older population are just stuck in their ways a bit more and I think we're at a critical point. We need to push and emphasise that there's change happening, and there's change needed, and Farming Connect are the ones that should be promoting this… "*[9]

**15.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth eithaf amrywiol gan wahanol randdeiliaid ynghylch beth ddylai rôl Cyswllt Ffermio fod yn y dyfodol a sut mae'n cyd-fynd â mathau eraill o gymorth sydd ar gael i ffermwyr yng Nghymru. Er bod cymorth wyneb yn wyneb yn bwysig, teimlai NFU Cymru y dylid symleiddio Cyswllt Ffermio ac na ddylai dynnu swm anghymesur o adnoddau allan o'r gyllideb materion gwledig. Roedd NFFN, Confor a WEL i gyd yn pwysleisio'r angen am fwy o

[5] https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-or-rhaglen-trosglwyddo-gwybodaeth-arloesi-gwasanaethau-cynghori-adroddiad-terfynol
[6] Tystiolaeth ysgrifenedig
[7] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 134
[8] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 140
[9] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 142

wasanaethau Cyswllt Ffermio i helpu'r broses o bontio i'r CFfC, megis ffermydd arddangos.

**16.** Yn enwedig yng ngoleuni'r safbwyntiau gwahanol hyn ar gylch gwaith a swyddogaethau'r dyfodol, rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'r genhadaeth a'r rôl yn glir iawn. Pwysleisiodd tystiolaeth gan WEL a'r NFFN pa mor bwysig oedd hi i Lywodraeth Cymru roi mwy o eglurder ynghylch yr hyn yr oedd am i Cyswllt Ffermio ei gyflawni a pham. Dywedodd yr NFFN nad oedd y cyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a Cyswllt Ffermio yn ddigon da a bod diffyg dealltwriaeth gan Cyswllt Ffermio o nodau polisi a chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymru wledig. Dywedodd Hywel Morgan:

> *"… they need to meet often and explain to each other what's happening on the ground, what farmers are doing, what they want. And the Government needs to explain why they want to do it, and in stakeholder groups, cross-party groups, just to have an understanding. It's all about the 'why'."*[10]

**17.** Rhaid cael dealltwriaeth glir o rolau Cyswllt Ffermio a'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm pan fo ffermwyr yn pontio i fath newydd o daliadau cymorth amaethyddol. Awgrymodd tystiolaeth ysgrifenedig NFU Cymru y dylai Cyswllt Ffermio roi cymorth ategol i ffermwyr i'r rhwydwaith cynghori a chymorth ehangach, gan osgoi dyblygu. Enwodd undebau'r ffermwyr, y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), Hybu Cig Cymru (HCC), y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm, cyflenwyr amaethyddiaeth, banciau, cyfrifwyr a chyfreithwyr fel eraill a allai gyfrannu.

**18.** Tynnodd NFU Cymru sylw at bwysigrwydd y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm, gan nodi ei fod yn siomedig bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddiystyru rôl y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm yn y gwaith o weithredu Cynlluniau'r dyfodol.[11] Yn y Pwyllgor, nododd Abi Reader o NFU Cymru nad oedd Cyswllt Ffermio wedi ymwneud â chymorth cyllideb y PAC o gwbl:

> *"Traditionally, that service has been filled by the farm liaison services, which have been highly respected. And what you get with that delivery is you would phone up your farm liaison officer, and they will organise a meeting with you and help you fill out your respective paperwork, or deal with your appeals, or whatever it may be. Farming Connect is a very different*

[10] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 223
[11] Tystiolaeth ysgrifenedig

> *organisation, where they will recognise there's a need in an area, you will express your interest and they will organise for an expert to come and speak to you."*[12]

**19.** Aeth Abi Reader ymlaen i gwestiynu gwerth am arian cael Cyswllt Ffermio i gynnig lefel uwch o gyngor na'r hyn a oedd ei angen a'r hyn a oedd yn cael ei gyflenwi gan y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm. Tynnodd sylw hefyd at faterion cyfreithiol – gan nodi bod y cyngor a roddwyd i ffermwyr weithiau wedi bod yn anghywir:

> *"We can certainly draw attention to some examples that have come from members where they've been in touch with supposed experts, who've given them advice, and it's been the wrong advice and they've fallen foul of their water quality regulations."*[13]

## Cefnogi'r pontio i'r CFfC

**20.** Er bod tystiolaeth ysgrifenedig Lantra yn rhoi enghreifftiau o weithgareddau rhaglen sy'n canolbwyntio ar y CFfC,[14] dywedodd UAC nad oedd llawer o feysydd yn yr opsiynau arfaethedig o fewn y CFfC wedi'u cynnwys yn y rhaglen bresennol.[15] Pwysleisiodd UAC nad oes gan ffermwyr lawer o brofiad o hyfforddiant ar-lein, cofnodi dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) neu brofi pridd, a dywedodd y bydd angen peth amser i sefydlu rhaglen Cyswllt Ffermio newydd a dod o hyd i'r arbenigedd perthnasol i gefnogi'r CFfC.

**21.** Dywedodd NFU Cymru y bydd angen cymorth ar ffermwyr i wneud cais am y CFfC a bodloni holl rwymedigaethau'r cynllun, gan gynnwys ffermwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Nododd y gallai fod cynnydd sylweddol yn nifer y ffermwyr sydd angen cymorth, felly dylid rhoi ystyriaeth i gapasiti Cyswllt Ffermio. Ond pwysleisiodd yr undeb hefyd na ddylid defnyddio gwasanaethau cyngor ac arweiniad i wneud iawn am gynllun sydd wedi'i ddylunio mewn ffordd or-gymhleth.[16]

**22.** Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Gareth Parry o UAC wrth yr Aelodau fod yna gwestiynau i'w gofyn am yr help a ddarparwyd yn benodol ar gyfer y pontio,

[12] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 23
[13] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 24
[14] Tystiolaeth ysgrifenedig
[15] Tystiolaeth ysgrifenedig
[16] Tystiolaeth ysgrifenedig

ond roedd undebau'r ffermwyr a CFfI Cymru hefyd yn cydnabod ei bod yn debygol o fod ychydig yn gynnar i'w asesu ar hyn o bryd.[17]

## Cyllid

**23.** Nododd nifer o randdeiliaid fod angen i lefel y cyllid, gan gynnwys ar gyfer cyngor ac arweiniad, gyfateb i uchelgais y CFfC. Dywedodd Menter a Busnes fod angen sicrwydd ariannol i ganiatáu i gontractau gael eu dyfarnu am o leiaf dair blynedd ac, yn ddelfrydol, am bum mlynedd, gan fod angen cynllunio gweithgarwch prosiectau ymlaen llaw.

**24.** Yn ôl NFU Cymru, er gwaethaf y buddsoddiad sylweddol a chynyddol o arian cyhoeddus dros ugain mlynedd, mae gallu dangos tystiolaeth o effaith a gwerth am arian y rhaglen Cyswllt Ffermio yn dal i fod yn her. Nododd fod y rhaglen wedi cael bron i £46.5 miliwn yn ystod CDG 2014-20, sef cynnydd o 50% ers y CDG blaenorol (2007-13). Mae NFU Cymru o'r farn bod rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad priodol o'r hyfforddiant ar-lein a ddarperir gan raglen Cyswllt Ffermio ar hyn o bryd cyn buddsoddi symiau sylweddol yn rhaglen y dyfodol.[18]

**25.** Mewn tystiolaeth lafar, nododd Gareth Parry o UAC y cyllid sylweddol mae Menter a Busnes yn ei dderbyn o gymharu â'r anhawster mae ffermwyr yn ei wynebu i gael gafael ar grantiau bach yn sgil cyfyngiadau cyllidebol. Pwysleisiodd Abi Reader o NFU Cymru nad yw'n gwneud unrhyw synnwyr bod ffermwyr yn gorfod gofyn am help wedi'i ariannu gan Cyswllt Ffermio i gynhyrchu'r cynlluniau rheoli maethynnau sy'n ofynnol gan Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.[19]

**26.** Er bod undebau'r ffermwyr yn poeni am adnoddau yn mynd i'r gwasanaethau cynghori yn hytrach nag i'r ffermwyr, dywedodd UAC fod pryderon am fiwrocratiaeth i gyflawni'r Gweithredoedd Cyffredinol yn y CFfC newydd, a faint y byddai ffermwyr yn gallu ei wneud heb gymorth.[20] Dywedodd Dominic Hampton Smith o CFfI Cymru:

> *"I think Farming Connect could be a really key tool for those that do enter the scheme to certainly enhance their understanding of carbon audits and the environmental schemes that are currently proposed. So, I think we do need to*

---

[17] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraffau 64-67
[18] Tystiolaeth ysgrifenedig
[19] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 69
[20] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraffau 73-76

*be very careful not to move too far away from that and leaving people to their own devices."*[21]

**27.** Dywedodd tystiolaeth ysgrifenedig WEL y dylai Cyswllt Ffermio ystyried cryfhau ei gynnig tuag at nwyddau cyhoeddus amgylcheddol. Fodd bynnag, yn ôl CFfI Cymru, er ei fod yn cydnabod rôl Cyswllt Ffermio yn hyrwyddo cynlluniau amgylcheddol, dywedodd y byddai'n bwysig peidio â gwyro gormod o'i rôl mewn perthynas â darpariaeth sy'n ymwneud â 'sgiliau fferm'.[22]

**28.** Mae NFU Cymru o'r farn y dylid blaenoriaethu darpariaeth cyngor ac arweiniad ar gyfer yr haenau gweithredoedd 'Opsiynol' a 'Chydweithredol' y disgwylir iddynt fod yn gontractau mwy cymhleth, pwrpasol.[23] Dywedodd yr NFFN y dylai cyngor nodi sefyllfaoedd lle mae pawb ar eu hennill a lle mae economeg busnesau fferm a buddion amgylcheddol yn gorgyffwrdd.[24]

**29.** Dywedodd Arfon Williams o WEL y bu diffyg buddsoddiad i esbonio'r angen i bontio ym maes ffermio, er mwyn adfer yr ecosystemau rydym yn dibynnu arnynt:

> *"… that's the role that is now facing farming, and that's the role that we're asking of farming. But I don't think anyone has actually sat farming down collectively and said, 'Right, this is what we now need you to do and why.'"*[25]

**30.** Cytunodd Hywel Morgan o'r NFFN fod Llywodraeth Cymru a Cyswllt Ffermio wedi colli cyfle drwy beidio â chael y sgwrs gyda ffermwyr yn gynt:

> *"We're at a stage now where we're seeing all these protests et cetera, and farmers getting angry, because nobody has actually explained to them and helped them with this transition."*[26]

## Newydd-ddyfodiaid

**31.** Ystyrir bod cymorth i newydd-ddyfodiaid a ffocws ar olyniaeth yn hanfodol ac yn fater brys. Dywedodd Hywel Morgan o'r NFFN:

> *"Unless we do something quick, we won't have anybody to manage the land and farm the land anyway and produce*

[21] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 76
[22] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 26
[23] Tystiolaeth ysgrifenedig
[24] Tystiolaeth ysgrifenedig
[25] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 166
[26] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 168

*food. And new entrants altogether, the price of land is obviously the big issue for new entrants, but share farming, which might need tweaking, is a good system within the current Farming Connect. It probably needs tweaking and more emphasis on who gets the payments rather than the landowner. But succession is the key."*[27]

**32.** Dywedodd Dominic Hampton Smith o CFfI Cymru fod gan Cyswllt Ffermio rôl hanfodol yn annog newydd-ddyfodiaid a bod angen llawer mwy o waith hyrwyddo:

*"... pushing the fact that there are a lot of opportunities within agriculture, is only a good thing. I think that we should be looking to try and progress in that area and really bring people in. Farming can sometimes be seen as a bit of a horrible job—24/7, every day, you're out working, day or night, wet or warm. So, getting past that, I think, is going to be tricky, but I do think it's something Farming Connect could certainly help push along with, and to really show that agriculture is key."*[28]

**33.** Roedd ymateb Lantra i'r Pwyllgor yn tynnu sylw at bwysigrwydd Cyswllt Ffermio yn hyrwyddo amaethyddiaeth, garddwriaeth a choedwigaeth fel gyrfa broffesiynol sy'n rhoi boddhad, gan nodi'r gwaith gyrfaoedd presennol sy'n cael ei gyflawni gan Lantra ar gyfer Llywodraeth yr Alban.[29]

**34.** Pwysleisiodd Elaine Harrison o Confor hefyd bwysigrwydd mynediad i bobl iau yng ngoleuni'r gweithlu sy'n heneiddio yn y sector. Dywedodd fod angen iddo fod yn fwy croesawgar a bod rhwystrau i fynediad ar hyn o bryd, felly gallai pobl ddysgu a chydweithio.[30]

**35.** Yn ôl UAC, roedd rôl i hyrwyddo ymhellach raglen mentrau ar y cyd Cyswllt Ffermio, a oedd wedi arwain at rai llwyddiannau da iawn. Yn ôl Gareth Parry, o ystyried y rhwystrau posibl y gallai tenantiaid eu hwynebu i gael cymorth cyfartal drwy'r CFfC yn y dyfodol, gallai hynny fod yn llwybr newydd i newydd-ddyfodiaid ymuno â'r diwydiant.[31]

---

[27] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 205
[28] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 102
[29] Tystiolaeth ysgrifenedig
[30] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 148
[31] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 107

**36.** Fodd bynnag, cwestiynodd NFU Cymru ai Cyswllt Ffermio a ddylai fod yn gyfrifol am gefnogi newydd-ddyfodiaid neu a ddylai ddod o gronfa ariannu wahanol, gyda Cyswllt Ffermio yn canolbwyntio ar gryfhau busnesau fferm presennol i fod yn addas ar gyfer y dyfodol, gan dynnu sylw at y rhagfynegiad y bydd swyddi'n cael eu colli yn y dyfodol.[32]

## Ffermydd Arddangos

**37.** Cafodd pwysigrwydd ffermydd arddangos ei bwysleisio – i leihau nerfusrwydd ffermwyr am y newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r CFfC ac i ddangos sut y gall cynhyrchu a rheoli cynefinoedd weithio gyda'i gilydd. Esboniodd Hywel Morgan o'r NFFN:

> *"... so farmers can go and have a look at what exactly do they mean by certain outcomes, certain universal actions, so we can see it on the ground, and get an understanding of how it looks, how it will work for my farm at home."*[33]

**38.** Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"...the farmers need a vision of what Government policy wants from us and what society is asking of us. And it isn't food production against nature. As farmers, food production is our priority, but also nature is a priority for their business as well. So, without both, neither wins."*[34]

**39.** Dywedodd Arfon Williams o WEL fod y ffermydd hyn yn ddull effeithiol o gyfleu negeseuon a'u bod yn rhoi enghreifftiau ymarferol ar waith, gan mai dyma'r hyn sydd wir yn taro tant gyda ffermwyr.[35] Yn ôl Hywel Morgan hefyd, ni fyddai ffermydd arddangos neu beilot yn ymwneud yn unig â chanolbwyntio ar lwyddiant, o reidrwydd, ond y byddent hefyd yn gyfle i ddysgu mwy yn sgil methiant, er enghraifft, wrth dreialu technolegau newydd.[36]

**Casgliad 1.** Mae'r awgrym bod Cyswllt Ffermio wedi ymddieithrio o nodau polisi Llywodraeth Cymru a bod cyfathrebu rhwng y ddau sefydliad yn wan yn peri pryder, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio pwysig hwn. Rhaid sicrhau eglurder

[32] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 104
[33] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 163
[34] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 189
[35] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 186
[36] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 200

llwyr ynghylch yr hyn y bwriedir i'r contract Cyswllt Ffermio newydd ei gyflawni a pham, ac mae'n amlwg bod angen hyrwyddo'r rhaglen yn well.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn hyrwyddo’n well rôl Cyswllt Ffermio o safbwynt cefnogi ffermwyr i ddeall sut y gallant gyflawni amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy y CFfC. Dylai hyn gynnwys ystyried awgrym rhanddeiliaid i ddefnyddio ffermydd arddangos neu ‘beilot’ fel rhan o waith Cyswllt Ffermio.

# 3. Gofynion sgiliau ac arbenigedd

**40.** Dywedodd NFU Cymru fod Cyswllt Ffermio yn ddefnyddiol fel porth i helpu ffermwyr i gael mynediad at y bobl iawn i ddarparu cyngor ac arbenigedd. Roedd CFfI Cymru yn cytuno ei fod yn lleihau'r amser ymchwil gan helpu darpar newydd-ddyfodiaid i gael mynediad at y bobl iawn i'w helpu. O ran cael yr wybodaeth ddiweddaraf, dywedodd Abi Reader fod enghreifftiau da o ddatblygiadau mewn meysydd megis iechyd traed buwch, ond bod angen gwell ymgysylltu a ffocws a llai o ddull hyd braich ar feysydd eraill.

**41.** Pan ofynnwyd pa feysydd y dylid canolbwyntio arnynt, dywedodd NFU Cymru fod effeithlonrwydd carbon yn bwysig, sut i sicrhau sero net mewn ffordd sy'n gynaliadwy i economi wledig Cymru, a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr wyddoniaeth ddiweddaraf, ond dywedodd Abi Reader hefyd fod buddsoddiad mewn seilwaith yr un mor bwysig â chyngor.

**42.** Ar y cyfan, roedd yr NFFN yn hapus gyda chynnig Cyswllt Ffermio, ond dywedodd y gellid gwneud mwy i gefnogi tyddynwyr a garddwriaethwyr, ac y gallai cynghorwyr ganolbwyntio mwy ar ffermio a choedwigaeth sy'n ystyriol o natur, gyda mwy o grwpiau trafod ac ymgynghorwyr sydd ag ymwybyddiaeth o gyfeiriad polisi newydd y CFfC.[37]

**43.** Roedd Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) yn galw am archwiliad sgiliau i nodi pa bartïon, unigolion a sefydliadau a oedd eu hangen i ddarparu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni amcanion rheoli tir yn gynaliadwy y CFfC. Galwodd WEL a'r NFFN am fwy o arbenigwyr bioamrywiaeth ac ecolegwyr. Dywedodd Hywel Morgan o'r NFFN fod angen naill ai ecolegwyr neu fentoriaid medrus yn sgil y maes pwnc arbenigol, er mwyn helpu ffermwyr i wybod a oedd eu tir neu eu cynefin yn barod ar gyfer y cynllun.[38]

**44.** Awgrymodd WEL y dylid ymgysylltu â chyrff anllywodraethol amgylcheddol i helpu Cyswllt Ffermio i gael mynediad at y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddylunio cyngor, yn enwedig ar gyfer elfennau creu cynefinoedd y CFfC. Dywedodd mai un ffordd o wneud hyn yw ymgysylltu â'r bartneriaeth Farm Wildlife i gael cyngor. Dywedodd hefyd y dylai Cyswllt Ffermio ehangu'r rhestr o hyfforddwyr trydydd parti i lenwi'r bylchau sgiliau.[39] Tynnodd yr NFFN sylw at y

[37] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraffau 149-151
[38] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 179
[39] Tystiolaeth ysgrifenedig

ffaith fod Plantlife yn wybodus iawn, a bod gan y Parciau Cenedlaethol eu timau ecoleg eu hunain

**45.** Dywedodd Arfon Williams wrth yr Aelodau fod y Sefydliad Siartredig Rheolaeth Ecolegol ac Amgylcheddol (CIEEM) wedi bod yn siarad â Cyswllt Ffermio am sut i wella nifer yr ecolegwyr, ond credai fod y broses wedi'i phwysoli'n fawr tuag at recriwtio'r mathau o sgiliau sydd eu hangen ar Cyswllt Ffermio ar hyn o bryd, ac y mae Cyswllt Ffermio eu heisiau ar hyn o bryd, sydd wedi'i seilio'n helaeth ar fath o agenda gynhyrchu.[40]

**46.** Mae NFU Cymru yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod bod llawer o ffermwyr yn gymwys iawn ac yn aml yn fwy cymwys a phrofiadol na'r cynghorwyr.[41] Mae'n nodi felly fod proses y gellir ei defnyddio i adnabod dysgu blaenorol ffermwyr yn hollbwysig. Tynnodd yr NFFN sylw hefyd at y ffaith nad oes yn rhaid i'r dull o ddefnyddio ymgynghorwyr proffesiynol fod y dull diofyn o reidrwydd, ac mae'n cefnogi hyrwyddo mentoriaid o blith ffermwyr h.y. y rhai sy'n gweithredu arferion da i drosglwyddo cyngor i ffermwyr eraill.

**47.** Dywedodd yr NFFN fod cyflogi unigolion priodol, sy'n ystyriol o anghenion ffermwyr, yn hanfodol er mwyn cynorthwyo i gyflawni cynlluniau cydweithredol, ac mae hyn wedi bod yn elfen hanfodol o lwyddiant cynlluniau amaeth-amgylcheddol sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn Iwerddon.[42] Disgrifiodd Hywel Morgan y mentora sy'n digwydd yn Cyswllt Ffermio fel gwasanaeth gwych y dylid ei wthio, ac y dylid annog mwy o ffermwyr i fod yn barod i rannu eu profiadau.[43]

**48.** Mae Ramblers Cymru yn nodi nad yw Cyswllt Ffermio yn cynnig cymorth i dirfeddianwyr ddeall mynediad cyhoeddus a hawliau tramwy cyhoeddus, gan gynnwys buddion cymdeithasol, eu hawliau, eu cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau. Mae'n dweud bod yma gyfle i addysgu tirfeddianwyr, gan ddweud bod cyfrifoldebau o ran mynediad yn aml yn cael eu hesgeuluso.[44]

## Ymchwil

**49.** Rhaid i Cyswllt Ffermio gadw i fyny â'r dystiolaeth wyddonol ddiweddaraf a rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â ffermwyr er mwyn eu helpu i arloesi, er enghraifft, i uwchraddio i ffermio adfywiol. Awgrymodd tystiolaeth ysgrifenedig WEL fod gan Cyswllt Ffermio rôl yn cefnogi ymchwil gydweithredol a arweinir gan

[40] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 146
[41] Tystiolaeth ysgrifenedig
[42] Tystiolaeth ysgrifenedig
[43] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 190
[44] Tystiolaeth ysgrifenedig

ffermwyr, gan nad yw'r cyfleoedd hyn ar gael mwyach drwy raglenni a ariennir gan yr UE.[45]

**50.** Yn ôl Arfon Williams o WEL, roedd cadw i fyny â'r datblygiadau diweddaraf yn her enfawr a fyddai'n dalcen caled i Cyswllt Ffermio, ac awgrymodd fod rôl i Lywodraeth Cymru yn hyn o beth mae'n debyg, o ran sicrhau ymagwedd integredig tuag at ddarparu hyb gwybodaeth mewn un lle.

**51.** Pan ofynnwyd a ddylai'r swyddogaeth ymchwil a datblygu fod yn greiddiol i'r rôl yn y dyfodol, yn hytrach na bod y cyfrifoldeb hwn yn disgyn ar sefydliadau addysg uwch, esboniodd Arfon Williams:

> *"Farming Connect have got a really good role in perhaps helping those ground-based, farmer-based collaborations to take this stuff and trial it on the ground, to learn through doing. I think that would involve academia, like IBERS and Bangor… That was there within the CAP provision. We had that ability to test this sort of stuff…having Farming Connect enabling that development and understanding of this—what does regenerative farming actually look like in Wales, how do we implement it and how do we derive the benefits from that—we'll only get to grips with that when we're actually piloting it and trialling it."*[46]

**52.** Dywedodd Arfon Williams fod gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol rôl bwysig yn darparu cymorth ac arbenigedd, a thynnodd sylw at brosiectau fel gwaith yr RSPB yn Llyn Efyrnwy ac adfer mawndiroedd, a oedd yn brosiectau arbenigol iawn.[47]

## Integreiddio gyda choedwigaeth a rheoli coetiroedd

**53.** Gyda chyflwyniad yr amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy yng nghynigion y CFfC, gan gynnwys targedau ar gyfer plannu coed a rheoli cynefinoedd coetir eraill, bydd angen mwy o gymorth ar ffermwyr o safbwynt rheoli coetiroedd. Nid oedd Elaine Harrison o Confor yn cytuno bod Cyswllt Ffermio yn adnabyddus ac yn uchel ei barch ymhlith coedwigwyr, a dywedodd fod coedwigaeth a rheoli coetiroedd yn elfen goll yn y rhaglen:

[45] Tystiolaeth ysgrifenedig
[46] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 161
[47] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 196

> *"... it hasn't been an inclusive entity, allowing, say, all woodland planners to be involved to be able to support farmers; it's only been a certain percentage. So, a lot of people have been disengaged from it, and haven't been able to support the farming sector. There is a limited amount of woodland management and forestry on the books, so it seems to be a tiny area that has been allowed to be explored with Farming Connect."*[48]

**54.** Roedd Confor yn cwestiynu a oedd angen ailfrandio Cyswllt Ffermio yn llwyr, gan nodi ai 'ffermio' yw'r gair iawn o ystyried pwysigrwydd cynnwys coedwigaeth a rheoli coetiroedd a chynefinoedd, yn ogystal â chynhyrchu bwyd. Ar y pwynt hwn, dywedodd tystiolaeth y Gweinidog i'r Pwyllgor:

> *"I ask the Committee to note any future offering has the potential to be different to that currently available to ensure it remains fit for purpose for the challenges and opportunities that lie ahead. It may still be branded as Farming Connect, but I may equally decide to change the brand."*[49]

**55.** Pwysleisiodd Confor bwysigrwydd gweithgareddau i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a chyfnewid gwybodaeth, gan gynnwys drwy ddysgu ar-lein a phodlediadau, yn ogystal â digwyddiadau wyneb yn wyneb. Dywedodd Elaine Harrison ei fod yn ymwneud â phroffesiynoli'r sector, er mwyn helpu pobl i wneud penderfyniadau gwybodus am eu busnes a sicrhau bod y busnesau hyn yn ffynnu a'u bod yn cael eu diogelu i'r dyfodol.[50] Mae Confor eisiau cefnogi elfennau DPP y rhaglenni coetir a dywedodd fod mynediad at ymchwil i goedwigoedd yn bwysig ar gyfer ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Dywed Confor y bydd angen i ffermwyr gael mynediad at gynghorwyr coetir, gan nodi bod 20-30 o goedwigwyr proffesiynol wedi'u cofrestru gyda CNC, ac mae gan Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig gofrestr hefyd.[51]

**56.** Darparodd Confor dystiolaeth atodol[52] maes o law, yn amlinellu'r modiwlau coetir lluosog y cred sydd eu hangen – nid dim ond un – a'r mentora a ddylai fod ar gael o dan Cyswllt Ffermio yn y dyfodol. Nododd y dystiolaeth y canlynol:

---

[48] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 132
[49] Tystiolaeth ysgrifenedig
[50] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 182
[51] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 192
[52] https://business.senedd.wales/documents/s145816/Additional%20evidence%20paper%20from%20Confor%20-%2029%20February%202024.pdf

> *"All registered woodland planners should have access within the mentoring scheme to support farmers and not be bound by a procurement process. These are professional foresters and registered with NRW. A cut of the money will then not go to a third-party making management plans uneconomically viable for the forester's time and preventing farmers having access to this opportunity. Confor is keen to ensure that an unbiased approach can be undertaken."*[53]

**Casgliad 2.** Er bod cynigion y CFfC yn dal i gael eu datblygu, mae tystiolaeth gan randdeiliaid yn dangos rhai bylchau sylweddol yn y rhaglen bresennol i helpu i bontio i'r CFfC, a chefnogi ffermwyr i gyflawni amcanion RhTG. Yn sicr, mae lle am lawer mwy o gyfraniad gan gyrff anllywodraethol amgylcheddol ac arbenigedd arbenigol, gan gynnwys ecolegwyr, arbenigwyr bioamrywiaeth a garddwriaeth a choedwigwyr, a rhaid rhoi blaenoriaeth i sicrhau'r arbenigedd hwn yn ystod y pontio i'r CFfC ac ar ôl hynny. Rhaid archwilio'n llawn rôl y ffermwyr eu hunain fel mentoriaid ac arbenigwyr. Mae angen ystyried sut mae gwybodaeth arbenigol yn cael ei rhannu gyda'r rhai sy'n rheoli'r tir, gan gynnwys y cwmpas ar gyfer datblygu hyb gwybodaeth o adnoddau a all gyfeirio'n glir at y dystiolaeth a'r cyngor gwyddonol diweddaraf.

**Casgliad 3.** Mae tystiolaeth o gynhwysiant cyfyngedig y sector coedwigaeth yn peri pryder, yn enwedig yng ngoleuni'r amcanion RhTG yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 a'r gofynion ar ffermwyr actif a nodir yng nghynigion y CFfC. Rhaid i Cyswllt Ffermio gynnwys llawer mwy o arbenigedd ym maes coedwigaeth a rheoli coetiroedd. Rhaid iddo gynnwys y sector hwnnw fel trydydd parti wrth ddatblygu gwasanaethau hyfforddi a chymorth a chyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i'r rhai sy'n rheoli tir amaethyddol Cymru.

[53] Tystiolaeth ysgrifenedig atodol

# 4. Cymhwystra a Mynediad

**57.** Yn ôl UAC, er bod Cyswllt Ffermio yn agored i bawb, mae canfyddiad bod rhai elfennau wedi'u cyfyngu i grwpiau bach, ac mae aelodau wedi sôn am anawsterau wrth gael mynediad at wahanol wasanaethau.[54]

**58.** Dywed Llywodraeth Cymru fod meini prawf cymhwystra ar gyfer 2023-25 wedi'u hehangu o raglenni blaenorol i gynnwys mwy o ffermwyr a choedwigwyr â daliadau llai, categorïau newydd o gontractwyr hunangyflogedig a busnesau bwyd. Dywedodd UAC y byddai'r tebygolrwydd, o dan gynigion y CFfC fel y maent ar hyn o bryd, o lai o ffermwyr yn ymuno â'r CFfC yn golygu ei bod yn bwysig sicrhau bod y rhai sydd y tu allan i'r cynllun yn dal i allu cael cyngor, cymorth a hyfforddiant gan Cyswllt Ffermio.[55] Ategwyd y pwynt hwn gan randdeiliaid eraill.

**59.** Tynnodd Menter a Busnes a Lantra sylw at y ffaith bod y meini prawf cymhwystra diwygiedig yn eithrio myfyrwyr, gan gyfyngu ar allu'r rhaglen i gefnogi'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr – cefnogwyd 662 o fyfyrwyr rhwng 2015 a 2023.[56] Credai rhanddeiliaid yn gryf y dylai myfyrwyr amaethyddol fod yn gymwys, ac y dylai Cyswllt Ffermio fod yn helpu newydd-ddyfodiaid i ymuno â'r byd amaeth.

**60.** Nododd Gareth Parry o UAC nad oedd unrhyw gymorth ariannol ychwanegol yng nghynigion presennol y CFfC ar gyfer newydd-ddyfodiaid a phobl ifanc, a dywedodd:

> *"… any avenue, really, that we can follow to try and support our new and young entrants even before they make that step onto the ladder, so when they're doing their agricultural and land-based training courses, then by all means we'd support their inclusion."*[57]

**61.** Dywedodd Dominic Hampton-Smith o CFfI Cymru fod Cyswllt Ffermio wedi bod yn gam enfawr ymlaen a fu'n gymorth mawr iddo, fel ffermwr cenhedlaeth gyntaf, gan ddweud bod angen i gymorth fod ar gael o'r coleg amaethyddol ymlaen.[58] Disgrifiodd Abi Reader o NFU Cymru hefyd ei phrofiad personol o

[54] Tystiolaeth ysgrifenedig
[55] Tystiolaeth ysgrifenedig
[56] Tystiolaeth ysgrifenedig
[57] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 33
[58] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 39

weithiwr amaethyddol ifanc yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at gynlluniau Cyswllt Ffermio.[59]

**62.** Dywedodd Arfon Williams o WEL fod angen meithrin perthynas waith fwy effeithiol gyda cholegau a sefydliadau amaethyddol ledled Cymru, yn enwedig yng ngoleuni'r heriau cynyddol i reolwyr tir y dyfodol, nid yn unig o safbwynt bwyd ond hefyd o safbwynt newid hinsawdd, diogelwch amgylcheddol ac adfer bioamrywiaeth.[60]

**63.** Roedd yr NFFN hefyd am weld y cynllun yn cael ei ymestyn i fod ar gael i arddwriaethwyr a'r rhai sy'n ffermio ar ddaliadau llai na 3 hectar.[61]

**64.** Dywedodd Dominic Hampton-Smith o CFfI Cymru fod y gallu i gael mynediad at wasanaethau, hyfforddiant a chymorth cyfrwng Cymraeg yn fater i bob ffermwr ei ystyried, gan gynnwys y rhai sy'n ymuno â'r diwydiant, nid yn unig y rhai mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith yn draddodiadol.[62] Dywedodd Hywel Morgan o'r NFFN:

> *"most advisers should be bilingual, because it's surprising how many people just feel comfortable speaking in Welsh and struggle to speak in English. So, that's an important part. And diversity is important, as well, and to encourage all sorts of religious backgrounds as well. I think, moving forward, we have to be more open minded and encompass and welcome everybody on board."*[63]

**65.** Pwysleisiodd UAC broblemau mynediad ar-lein - oherwydd anawsterau gyda chysylltedd digidol yn sgil problemau band eang mewn ardaloedd gwledig, neu'r gallu i we-lywio a chael mynediad at gymorth drwy'r wefan.[64] Gwelodd WEL rôl i Cyswllt Ffermio o ran darparu'r sgiliau a'r gallu i gael mynediad at gymorth drwy ddulliau digidol.

**66.** Tynnodd Gareth Parry o UAC sylw hefyd at bwysigrwydd swyddogion ardal ac ymgysylltu wyneb yn wyneb i'r rhai mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd'.[65]

---

[59] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 41
[60] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 152
[61] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 151
[62] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 50
[63] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 154
[64] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraffau 43-45
[65] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 28

**Casgliad 4.** Mae cymorth i fyfyrwyr a gweithwyr amaethyddol sy'n newydd i'r diwydiant yn hanfodol, a rhaid sicrhau bod rhoi blaenoriaeth i hyn yn rhan o'r contract newydd. Mae angen adolygu mynediad a chymhwystra ar gyfer Cyswllt Ffermio ar unwaith gyda'r bwriad o sicrhau gwell mynediad i newydd-ddyfodiaid a grwpiau eraill sydd wedi'u hallgáu ar hyn o bryd, gan gynnwys myfyrwyr. Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried anghenion tyddynwyr a garddwriaethwyr wrth gomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol. Rhaid sicrhau bod darpariaeth ddigonol o wasanaethau cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg, a rhaid rhoi blaenoriaeth i broblemau parhaol fel allgáu digidol. Rhaid i ymgysylltu â cholegau a sefydliadau amaethyddol eraill gael sylw manwl yn y rhaglen Cyswllt Ffermio nesaf, yn ogystal â meithrin cysylltiadau ag ysgolion i hyrwyddo'r diwydiant a'r cyfleoedd sydd ar gael.

# 5. Strwythur y Contract a'r Rhaglen

**67.** Roedd rhanddeiliaid yn cytuno'n gryf bod hyd contract o ddwy flynedd yn rhy fyr o ystyried natur hirdymor ffermio, a bod contract pum mlynedd gydag adolygiadau rheolaidd yn rhan ohono yn fwy priodol. Dywedodd Abi Reader o NFU Cymru:

> *"… Looking at longer term contracts can give quite a bit of benefit, as long as there are checks and balances in place, so that if it appears that it needs to go off in another direction, then it can. But, yes, some more long-term stability is always welcome."*[66]

**68.** Gwnaeth Hywel Morgan o'r NFFN y pwynt hefyd fod contract byrrach yn effeithio ar hyfforddiant staff a chyfraddau cadw staff.

**69.** Tynnodd Menter a Busnes sylw at y ffaith bod contract 2015-23 wedi'i strwythuro ar sail tair rhaglen, tra bod contract 2023-25 yn cynnig saith. Dywedodd fod rhannu'r contract yn ormod o raglenni graddfa fach yn cynyddu costau rheoli ac yn arwain at y risg o ddyblygu gwaith a diffyg cydgysylltu.[67]

**70.** Dywedodd Arfon Williams sy'n cynrychioli WEL fod lle i ehangu'r rhaglen, a bod angen ei hailddylunio o amgylch amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy a chynnwys mwy o ochr amgylcheddol rheoli tir yn gynaliadwy. Nododd argymhelliad o'r gwerthusiad o Cyswllt Ffermio yn 2021, sef bod llawer o raglenni tebyg eraill sydd ar waith mewn mannau eraill yn Ewrop yn gwneud llawer mwy dros yr amgylchedd.[68]

**71.** Dywedodd Arfon Williams hefyd fod angen gwneud rhywfaint o waith dilyniannu fel rhan o'r blaengynllunio ar gyfer y contract newydd:

> *"… I think Farming Connect needs to think about that kind of sequencing as well: what should it be focusing on initially in order to have that conversation with farming?"*[69]

[66] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 61
[67] Tystiolaeth ysgrifenedig
[68] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 158
[69] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 185

**72.** Rhaid i Lywodraeth Cymru roi ystyriaeth ofalus i'r materion hyn ar gyfer y contract i gefnogi'r CFfC, gyda chynigion diweddaraf y CFfC yr ymgynghorwyd arnynt wedi nodi cyfanswm o 17 o Weithredoedd Cyffredinol.

## Gwerthusiad ffurfiol o Cyswllt Ffermio

**73.** Gofynnodd yr Aelodau i undebau'r ffermwyr a CFfI Cymru a oedd angen dull gwerthuso mwy ffurfiol yn y dyfodol i ystyried barn y diwydiant. Cytunwyd bod angen hyn, a nodwyd y gallai mynediad at Weinidogion fod yn broblem, a bod yr amser a oedd ar gael yn tueddu i ganolbwyntio ar faterion blaenoriaeth fel taliadau cymorth i ffermwyr a TB buchol. Nododd UAC nad oedd cynnig blaenorol Llywodraeth Cymru yn 2020 ar gyfer Bwrdd Cynghori ar Ddatblygu Gwledig, i ganolbwyntio ar ddyfodol datblygu gwledig yng Nghymru a blaenoriaethau cyllido, wedi'i ddatblygu.

**Casgliad 5.** Ers ymadael â'r UE, nid yw rhai o'r mecanweithiau blaenorol ar gyfer craffu ar daliadau cymorth amaethyddol a gwasanaethau ar waith mwyach. Mae hynny'n golygu ei bod hi'n bwysicach nag erioed bod â mecanweithiau cadarn ar gyfer craffu ar yr arian cyhoeddus sy'n cael ei wario ar gefnogi'r diwydiant amaethyddol, gan gynnwys gwerth am arian ac effeithiolrwydd gwasanaethau Cyswllt Ffermio. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir sut y mae'n bwriadu gwarantu'r atebolrwydd hwn, ac yna bydd angen i'r Pwyllgor ystyried ei rôl graffu ei hun. Dylai Llywodraeth Cymru ymateb hefyd i fater sut mae'r gymuned ffermio, cyrff anllywodraethol amgylcheddol a phawb sy'n actif yn yr economi wledig yn cael fforwm i fynegi eu barn am wasanaethau cynghori ffermwyr ac i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau yn y dyfodol.

# 6. Cefnogi iechyd meddwl

**74.** Yn ymateb y Gweinidog i gwestiynau'r Pwyllgor am Cyswllt Ffermio, tynnodd sylw at ei rôl yn codi ymwybyddiaeth o ofal iechyd meddwl mewn cymunedau gwledig a mynd i'r afael â stigma. Dywedodd y bydd Cyswllt Ffermio a staff cyflenwi eraill y CFfC yn parhau i gael hyfforddiant cymorth cyntaf ym maes iechyd meddwl.

**75.** Ni ddylai Cyswllt Ffermio efelychu darpariaeth iechyd meddwl dda sy'n bodoli eisoes, ond rhaid iddo fod â pherthynas waith dda gydag elusennau iechyd meddwl er mwyn helpu ffermwyr i ddod o hyd i'r cymorth cywir yn gyflym. Roedd UAC eisiau gweld perthynas waith agosach rhwng Cyswllt Ffermio ac elusennau iechyd meddwl, yn enwedig o safbwynt cyfeirio at gymorth.[70]

**76.** Dywedodd Abi Reader o NFU Cymru fod y problemau iechyd meddwl presennol yr oedd ffermwyr yn eu profi o ganlyniad i reoliadau sy'n esblygu ac aflonyddwch ar ôl Brexit. Dywedodd ei bod yn dasg arbenigol ac na ddylai fod yn rôl i Cyswllt Ffermio y tu hwnt i gyfeirio pobl - dylai cymorth iechyd meddwl ddod o bot gwahanol, a chydag arbenigedd arbenigol i ymdrin â materion dyrys y tu hwnt i gwmpas y sefydliad hwnnw.[71]

**77.** Dywedodd Hywel Morgan o'r NFFN fod Cymru'n ffodus bod ganddi rai elusennau iechyd meddwl da, ond pwysleisiodd bwysigrwydd lleihau'r pwysau ar ffermwyr yn y lle cyntaf, a darparu cyfleoedd i siarad am faterion nad ydynt yn ymwneud â ffermio i helpu i leihau straen gwaith:

> *"… the first thing I'd say is to look at what Farming Connect are currently doing, and is any of that creating mental health issues, because there's a lot of peer pressure, and there are a lot of expectations from farmers. Are we pushing farmers to do more than they physically can, both mentally and physically? … some of these discussion groups don't have to be focused on precision grazing or, I don't know, key performance indicators; maybe just a day out to the races or something like that would be enough sometimes—just down time. There's too much pressure. It's all about work, work, work and sometimes down time is all that's needed…"*[72]

---

[70] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 107
[71] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 109
[72] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 212

**78.** Cydnabu tystiolaeth WEL fod lles ffermwyr a darpariaeth cymorth emosiynol yn hollbwysig; bod nodi'r sbardunau sy'n arwain at orbryder a straen yn bwysig ac y gallai Cyswllt Ffermio gyfrannu at ddod o hyd i atebion ymarferol i fynd i'r afael â'r rhain.[73]

**Casgliad 6.** Mae gan Cyswllt Ffermio rôl bwysig o ran cyfeirio at gymorth iechyd meddwl. Yn enwedig yng ngoleuni lefelau uchel o orbryder ac anniddigrwydd yn y sector am yr heriau y mae ffermwyr yn eu hwynebu, ac ansicrwydd y cyfnod pontio y mae'r diwydiant ynddo, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y cynhelir gwerthusiad cadarn ynghylch a yw gwasanaethau Cyswllt Ffermio yn canolbwyntio'n ddigonol ar gefnogi iechyd meddwl a lleihau pwysau yn hytrach nag ychwanegu atynt mewn unrhyw ffordd. Cyn belled ag y bo modd o fewn ei gylch gwaith, rhaid i Cyswllt Ffermio nodi a mynd i'r afael â'r materion sy'n achosi'r gorbryder a'r straen mwyaf i ffermwyr. Dylid ystyried sut y gall 'ychwanegu gwerth' at y gwasanaethau cymorth arbenigol presennol sydd ar gael i ffermwyr, a darparu atebion ymarferol i fynd i'r afael â phrif sbardunau straen. Gan gydnabod faint sydd wedi newid i'r sector ers y gwerthusiad ffurfiol diwethaf yn 2021, dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried a allai rhywfaint o werthusiad a mewnbwn annibynnol fod yn ddefnyddiol wrth gyflawni'r nod pwysig hwn.

[73] Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 22 Chwefror 2024, Paragraff 214

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor. Gellir gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **22 Chwefror 2024** | **Dominic Hampson-Smith, Is-Gadeirydd Materion Gwledig**, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru (CFfI Cymru)<br>**Gareth Parry, Dirprwy Bennaeth Polisi,** Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)<br>**Abi Reader, Dirprwy Lywydd,** Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU)<br>**Arfon Williams, Pennaeth Polisi Tir a Môr RSPB Cymru,** yn cynrychioli Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL)<br>**Elaine Harrison, Rheolwr Cenedlaethol Cymru,** Confor<br>**Hywel Morgan, Cadeirydd,** Y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur (NFFN) |

# Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor y gellir ei gweld ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Sefydliad |
|---|---|
| **22 Chwefror 2024** | Papur tystiolaeth – Undeb Amaethwyr Cymru (UAC), Eitem 3 |
| **22 Chwefror 2024** | Papur tystiolaeth - Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru (NFU Cymru) |
| **22 Chwefror 2024** | Gwybodaeth ychwanegol – Lantra, Eitem 3 |
| **22 Chwefror 2024** | Gwybodaeth ychwanegol – Menter a Busnes, Eitem 3 |
| **22 Chwefror 2024** | Papur tystiolaeth – Y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur, Eitem 4 |
| **22 Chwefror 2024** | Papur tystiolaeth – Confor, Eitem 4 |
| **22 Chwefror 2024** | Papur tystiolaeth – Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL), Eitem 4 |

## Gwybodaeth Ychwanegol

| Teitl | Dyddiad |
|---|---|
| Confor – tystiolaeth atodol ar ôl cyfarfod 22 Chwefror | 29 Chwefror 2024 |
| E-bost gan Ramblers Cymru | 5 Chwefror 2024 |
| Llythyr at y Cadeirydd gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd | 1 Chwefror 2024 |
| Llythyr gan y Cadeirydd i Lantra ynghylch Cyswllt Ffermio | 23 Ionawr 2024 |
| Llythyr gan y Cadeirydd i Menter a Busnes ynghylch Cyswllt Ffermio | 23 Ionawr 2024 |
| Llythyr gan y Cadeirydd i Lywodraeth Cymru ynghylch Cyswllt Ffermio | 23 Ionawr 2024 |